# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 9 Rhagfyr 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

## 310(v5)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

### 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel y Gweinidog Pontio Ewropeaidd)

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Cefnogaeth i fabanod a rhieni newydd yn ystod Covid-19

(60 munud)

**NDM7462 Lynne Neagle (Torfaen)**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod bod y dystiolaeth yn ddiamwys bod 1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn, o feichiogrwydd i ddwy oed, yn gosod y sylfeini ar gyfer bywyd hapus ac iach a bod cysylltiad cryf rhwng cefnogaeth a llesiant babanod yn ystod y cyfnod hwn a gwell canlyniadau yn ddiweddarach mewn bywyd, gan gynnwys cyflawniad addysgol, cynnydd yn y gwaith a gwell iechyd corfforol a meddyliol.

2. Yn nodi, ers yr achosion o COVID-19 a'r cyfyngiadau symud ac ymbellhau cymdeithasol a ddaeth yn sgil hynny, fod corff cynyddol o ymchwil yn dangos bod rhieni'n wynebu pwysau digynsail, pryderon uwch, a'u bod mewn mwy o berygl o ddatblygu problemau iechyd meddwl yn y cyfnod amenedigol.

3. Yn nodi bod arolwg Babies in Lockdown 2020 wedi dangos bod 66 y cant o ymatebwyr o Gymru wedi nodi mai iechyd meddwl rhieni oedd y prif bryder yn ystod y cyfyngiadau symud: dim ond 26 y cant oedd yn teimlo'n hyderus y gallent ddod o hyd i gymorth ar gyfer iechyd meddwl pe bai ei angen arnynt a bod 69 y cant o rieni'n teimlo bod y newidiadau a gyflwynwyd gan COVID-19 yn effeithio ar eu baban heb ei eni, babi neu blentyn ifanc.

4. Yn nodi bod ymchwil New Parents and COVID-19 2020 wedi canfod bod dros hanner y 257 o ymatebwyr sydd wedi rhoi genedigaeth ers y cyfyngiadau symud yn teimlo bod eu profiad geni wedi bod yn anos na'r disgwyl oherwydd cyfyngiadau'r coronafeirws, dros 60 y cant heb dderbyn unrhyw fath o archwiliad ôl-enedigol a bron i chwarter am gael cymorth iechyd meddwl amenedigol.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau a chymorth i deuluoedd yn ystod beichiogrwydd a'r cyfnod amenedigol yn cael blaenoriaeth a bod y gweithlu bydwreigiaeth, ymwelwyr iechyd ac iechyd meddwl amenedigol yn cael ei ddiogelu rhag adleoli yn ystod y pandemig.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n rhagweithiol gyda byrddau iechyd i sicrhau y gall menywod gael cymorth diogel gan eu partneriaid yn ystod ymweliadau ysbyty yn ystod beichiogrwydd.

7. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu buddsoddiad ychwanegol wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol a gwasanaethau gwirfoddol i ymdopi â'r cynnydd yn y galw oherwydd COVID-19.

Babies in Lockdown (Saesneg yn unig)

New Parents and COVID-19 (Saesneg yn unig)

**Cyd-gyflwynwyr**

**Bethan Sayed**

**Leanne Wood**

**Cefnogwyr**

**Alun Davies**

**Dai Lloyd**

**David Rees**

**Dawn Bowden**

**Helen Mary Jones**

**Huw Irranca-Davies**

**Jack Sargeant**

**Jayne Bryant**

**Jenny Rathbone**

**Joyce Watson**

**Neil McEvoy**

**Vikki Howells**

## 6 Dadl ar Ddeiseb P-05-1010 Ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd yn Rhondda Cynon Taf yn 2020 fel bod gwersi yn cael eu dysgu

(30 munud)

**NDM7502** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-05-1010 Ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd yn Rhondda Cynon Taf yn 2020 fel bod gwersi yn cael eu dysgu' a gasglodd 6,017 o lofnodion.

P-05-1010 Ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd yn Rhondda Cynon Taf yn 2020 fel bod gwersi yn cael eu dysgu

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod eitemau 7-8 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:

(60 munud)

## 7 Dadl: Cyfyngiadau Coronafeirws Newydd

**NDM7501** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi:

a) y cynnydd yn y gyfradd dreigl saith niwrnod mewn perthynas â digwyddedd achosion o'r coronafeirws ledled Cymru;

b) y datganiad gan y Prif Weinidog ar 1 Rhagfyr a oedd yn nodi'r mesurau cenedlaethol newydd i ddiogelu iechyd y cyhoedd a lleihau lledaeniad y coronafeirws; ac

c) y pecyn cymorth busnes £340m a ddarperir drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd i gefnogi busnesau yr effeithir arnynt gan y mesurau cenedlaethol newydd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd gwelliant 1 a gyflwynwyd i'r cynnig**

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu nad yw dull gweithredu Cymru gyfan yn gymesur o ystyried bod COVID-19 yn cylchredeg ar wahanol gyfraddau mewn gwahanol rannau o'r wlad.

**Gwelliant 3** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu nad oes digon o dystiolaeth i ddangos bod cyfyngiadau presennol Llywodraeth Cymru ar werthu alcohol mewn tafarndai, caffis a bwytai yn gymesur.

**Gwelliant 4** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod y cymorth ariannol sydd ar gael i fusnesau y mae'r cyfyngiadau'n effeithio arnynt yn annigonol, yn enwedig pan fo cwmnïau wedi gwario symiau enfawr ar sicrhau bod eu safleoedd yn ddiogel i staff a chwsmeriaid o ran COVID-19.

**Gwelliant 5** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r dystiolaeth a oedd yn sail i'w phenderfyniad i gau lleoliadau adloniant dan do.

**Gwelliant 6** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o gymorth ariannol ar gael i fusnesau mewn modd amserol.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd gwelliannau 7, 8 a 9 a gyflwynwyd i'r cynnig**

**Gwelliant 10** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu:

a) at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi mynd ar drywydd camau gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth gyfyngedig iawn o'r sefyllfa yng Nghymru;

b) at y ffaith mai effaith gyfyngedig iawn a gaiff y cyfyngiadau ar gyfraddau heintio yng Nghymru;

c) at y ffaith y bydd y cyfyngiadau hyn yn cael effaith barhaol ar swyddi a bywoliaethau ac y byddant yn achosi niwed parhaol i'r sector lletygarwch yng Nghymru.

**Gwelliant 11** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cytuno, er y gall lleoliadau lletygarwch aros ar agor, na ddylent fod yn destun gwaharddiad llwyr ar werthu alcohol fel y nodir ar hyn o bryd yn y rheoliadau a ddaeth i rym ar 4 Rhagfyr.

**Gwelliant 12** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cytuno y dylai'r terfyn amser ar gyfer gwerthu alcohol mewn archfarchnadoedd a siopau diodydd trwyddedig fod yn gyson â'r terfyn amser a bennwyd ar gyfer lleoliadau lletygarwch.

**Gwelliant 13** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cytuno y dylid caniatáu i leoliadau lletygarwch aros ar agor tan 8pm.

**Gwelliant 14** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu

a) yr amcanion penodol y mae'n gobeithio y bydd y cyfyngiadau cenedlaethol newydd a amlinellwyd yn natganiad y Prif Weinidog i'r Senedd ar 1 Rhagfyr yn eu cyflawni; a

b) beth fydd y trothwy ar gyfer llacio'r mesurau hynny.

**Gwelliant 15** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cytuno y dylid cyhoeddi cyngor diweddaraf cell cyngor technegol Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r holl ddata sy'n cefnogi'r penderfyniadau polisi, ochr yn ochr ag unrhyw gyhoeddiad ar gyfyngiadau coronafeirws cenedlaethol pellach, neu cyn cyhoeddiad o'r fath.

**Gwelliant 16** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu rhagdybiaeth o blaid cynnal pleidlais ystyrlon yn y Senedd cyn y bydd unrhyw gyfyngiadau coronafeirws cenedlaethol pellach a gaiff yr un fath o effaith â'r rhai a amlinellir yn natganiad y Prif Weinidog i'r Senedd ar 1 Rhagfyr yn dod i rym.

**Gwelliant 17** Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi cyfle i'r gwrthbleidiau wneud ceisiadau rhesymol am fodelu annibynnol gan y gell cyngor technegol ar gynigion amgen mewn perthynas â materion fel cau'r sector lletygarwch ac ymyriadau eraill nad ydynt yn rhai fferyllol.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Coronafeirws – Cyfyngiadau mis Rhagfyr

**NDM7505** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r cyfyngiadau coronafeirws a osodwyd ar y diwydiannau lletygarwch ac adloniant dan do yng Nghymru o 4 Rhagfyr 2020 ymlaen.

2. Yn gresynu at effaith andwyol y cyfyngiadau ar fusnesau a swyddi yng Nghymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) atal y cyfyngiadau ar unwaith; a

b) mabwysiadu dull mwy cymesur wedi'i dargedu o fynd i'r afael â'r coronafeirws yng Nghymru.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23(iii), ni ddewiswyd y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig.**

## 9 Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 03-20

(15 munud)

**NDM7503** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 03-20 a osodwyd gerbron y Senedd ar 2 Rhagfyr 2020 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9.

2. Yn cadarnhau'r argymhelliad yn yr adroddiad fod rheol wedi'i thorri.

3. Yn penderfynu ar y canlynol am gyfnod o 21 diwrnod, ac eithrio yn ystod toriad y Senedd, gan ddechrau'n syth wedi i'r cynnig hwn gael ei dderbyn a chan ddod i ben dim hwyrach na hanner nos 21 Ionawr 2021:

a) bydd hawliau a breintiau'r Aelodau a'i fynediad i'r Senedd a Thŷ Hywel yn cael eu tynnu'n ôl o dan Reol Sefydlog 22.10 (ii);

b) caiff yr Aelod ei wahardd o drafodion y Senedd o dan Reol Sefydlog 20.10(iii); a

c) ni fydd yr Aelod yn cael hawlio cyflog gan y Senedd ar gyfer y dyddiau y mae paragraffau a. a b. uchod yn gymwys iddynt, yn unol â Rheol Sefydlog 22.10A.

## Cynnig Gweithdrefnol i ohirio y Ddadl Fer i'r Cyfarfod Llawn dydd Mercher nesaf

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7504** Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru)

Pwysigrwydd cefnogwyr mewn digwyddiadau chwaraeon ar gyfer gwead cymdeithasol ein cymunedau.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 15 Rhagfyr 2020

***Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 02/12/2020 i'w hateb ar 09/12/2020***

Bydd y Llywydd yn galw ar Llefarydd y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**

1. **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**
   **OQ56003 (e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu ar gyfer datblygu busnesau yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

2. **Alun Davies (Blaenau Gwent)**
   **OQ56004 (e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru i fuddsoddi yn natblygiad economaidd trefi ym Mlaenau'r Cymoedd?

3. **Mandy Jones (Gogledd Cymru)**
   **OQ56006 (e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y llwybr coch yn sir y Fflint?

4. **Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
   **OQ56005 (e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch dyfodol gwaith dur Trostre yn Llanelli?

5. **Rhianon Passmore (Islwyn)**
   **OQ56017 (e)**

Pa effaith y bydd argymhellion yr adroddiad Un Rhanbarth, Un Rhwydwaith, Un Tocyn gan Gomisiynydd Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn ei chael ar wasanaethau rheilffordd yn Islwyn?

6. **Mark Reckless (Dwyrain De Cymru)**
   **OQ56015 (e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ariannu Trafnidiaeth Cymru gan ei bod bellach wedi cymryd rheolaeth dros fasnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau?

7. **Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni**)
**OQ56009 (e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddi strategol mewn trafnidiaeth ym Merthyr Tudful a Rhymni?

8. **Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**
**OQ55990 (e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith economaidd pandemig y coronafeirws ar Orllewin Clwyd?

9. **Leanne Wood (Rhondda)**
**OQ55997 (e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn annog beicio yn y Rhondda?

10. **Gareth Bennett (Canol De Cymru)**
**OQ56002 (e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo twf economaidd yng Nghanol De Cymru?

11. **Mick Antoniw (Pontypridd)**
**OQ56001 (e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth ym Mhontypridd a Thaf-Elái?

12. **Russell George (Sir Drefaldwyn)**
**OQ55998 (e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau bach ar y stryd fawr yng nghanolbarth Cymru?

**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**

1. **David J. Rowlands (Dwyrain De Cymru**)

**OQ56010**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am weithredu'r gronfa ffyniant gyffredin?

2. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**
   **OQ55989 (e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael ynghylch Porthladd Caergybi ar ôl i gyfnod pontio'r UE ddod i ben?

3. **Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)**
   **OQ56011 (e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith paratoadau Brexit ar Ferthyr Tudful a Rhymni?

4. **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**
   **OQ55999 (e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ddatblygu ei pherthynas â'r Undeb Ewropeaidd a'r aelod-wladwriaethau ar ôl Brexit?

5. **Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
   **OQ55995 (e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r effaith y bydd cyhoeddiadau diweddar Llywodraeth y DU ar ei chynlluniau mewnfudo yn ei chael ar Gymru?

6. **Huw Irranca-Davies (Ogwr)**
   **OQ55988 (e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith cronfa ffyniant gyffredin y DU ar y setliad datganoli?

7. **Mark Reckless (Dwyrain De Cymru)**
   **OQ56016 (e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal ynghylch effaith proses Brexit ar pa mor gyflym y caiff brechlynnau COVID-19 gymeradwyaethau rheoleiddiol?

8. **Nick Ramsay (Mynwy)**

**OQ55993 (e)**

A yw'r Cwnsler Cyffredinol wedi trafod trefniadau ar gyfer cefnogi allforio cynnyrch o Gymru ar ôl Brexit gyda'i gydweithwyr gweinidogol?